

# Gwaith dilynol ar gysgu ar y stryd

## Gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau

### 1. Cyflwyniad

1. Fel rhan o'r gwaith dilynol diweddar ar ein [hymchwiliad yn 2018 i gysgu ar y stryd](#), gwnaethom waith manwl yn ymgysylltu â dinasyddion i glywed yn uniongyrchol gan y rhai sydd â phrofiad byw o'r hyn sydd angen ei wneud i roi terfyn ar gysgu ar y stryd. Ymgysylltwyd hefyd â'r rhai sy'n cefnogi pobl sy'n cysgu ar y stryd a phobl ddigartref. Mater a oedd yn cael ei godi dro ar ôl tro oedd yr anhawster i bobl sy'n cysgu ar y stryd gael mynediad at wasanaethau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl integredig. Cyfeirir at gyd-fodolaeth anhwylder iechyd meddwl ac anhwylder defnyddio sylweddau fel anhwylderau sy'n cyd-ddigwydd.

2. Fel rhan o'n gwaith craffu ar waith y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ("y Gweinidog") ar 17 Hydref 2019,<sup>1</sup> tynnwyd sylw at y mater penodol hwn. Er ein bod yn croesawu ffocws o'r newydd Llywodraeth Cymru ar fynd i'r afael â chysgu ar y stryd, gan gynnwys sefydlu'r Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd ("y Grŵp Gweithredu"), mae gennym bryderon ynghylch lefel y gefnogaeth integredig i bobl sy'n cysgu ar y stryd ac sydd ag anhwylderau sy'n cyd-ddigwydd.

3. Mewn gohebiaeth at y Pwyllgor ar 29 Tachwedd yn dilyn y cyfarfod hwn, nododd y Gweinidog fod y cynlluniau cyflenwi ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau ac Iechyd Meddwl yn cynnwys camau gweithredu sy'n blaenoriaethu

---

<sup>1</sup> Mae'r trawsgrifiad o'r cyfarfod hwn ar gael [yma](#) ac mae'r gweddarllediad ar gael [yma](#)



tai a'r angen i gefnogi unigolion sydd ag anhwylderau sy'n cyd-ddigwydd. Nododd hefyd "gyllid ychwanegol penodol ar gyfer y rheini sydd ag anghenion cymhleth", sy'n cynnwys cefnogi Tai yn Gyntaf. Cytunwyd ar swm o £1.3 miliwn ar gyfer nifer o fyrddau iechyd.<sup>2</sup>

**4.** Er mwyn deall y bylchau mewn gwasanaethau yn well; a'r atebion posibl, cawsom dystiolaeth gan randdeiliaid ag arbenigedd ym maes tai, camddefnyddio sylweddau ac iechyd. Gwnaethom hyn ar 13 Tachwedd 2019.<sup>3</sup>

**5.** Hoffem ddiolch i'r rhai a gyfrannodd am eu didwylledd a'u gonestrwydd wrth amlinellu'r heriau i ddarparu gwasanaethau integredig. Roedd consensws y dystiolaeth a glywsom yn drawiadol, yn enwedig gan fod y panel yn cynnwys pobl o ystod o sectorau a chefnidiroedd proffesiynol.

**6.** Gan adeiladu ar yr adroddiad byr hwn, rydym yn bwriadu cynnal sesiwn graffu weinidogol ar y cyd arall gyda'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol; a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod tymor y gwanwyn 2020 ar y materion a godwyd yn yr adroddiad hwn.

## 2. Maint y broblem

**7.** Dywedodd y Grŵp Gweithredu fod Cymru "yn wynebu argyfwng cysgu allan" oherwydd y cynnydd o 45 y cant a gofnodwyd mewn achosion o'r fath rhwng 2015 a 2018.<sup>4</sup> Mae hyn i'w weld ar strydoedd ym mhob dinas a thref yng Nghymru, ond mae hefyd yn gyffredin mewn ardaloedd gwledig.

**8.** Cyhoeddwyd y Cyfrifiad diweddaraf ar gyfer Cysgu ar y Stryd ym mis Chwefror 2019. Amcangyfrifodd awdurdodau lleol fod 347 o bobl yn cysgu ar y stryd yn y cyfnod rhwng 15 a 28 Hydref 2018, gyda 158 o unigolion wedi'u gweld yn cysgu ar y stryd rhwng 22:00 ar 8 Tachwedd a 05:00 ar 9 Tachwedd. Fodd bynnag, fel y nodir gan Lywodraeth Cymru, ciplun o'r amcangyfrifiad yw hyn mewn gwirionedd ac nid yw ond yn rhoi syniad cyffredinol iawn o nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd.<sup>5</sup> Yn ein hadroddiad cychwynol ar gysgu ar y stryd, amlygwyd cyfyngiadau'r dull cyfredol.<sup>6</sup> Mae'r Grŵp Gweithredu yn nodi nad yw'r data

---

<sup>2</sup> [Gohebiaeth gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, 29 Tachwedd 2019](#)

<sup>3</sup> Mae'r trawsgrifiad o'r cyfarfod hwn ar gael [yma](#) ac mae'r gweddarllediad ar gael [yma](#)

<sup>4</sup> [Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd, Atal cysgu allan yng Nghymru a'i leihau yn y byrdymor.](#)

<sup>5</sup> [Llywodraeth Cymru, Cyfrif cenedlaethol o gysgu allan: Tachwedd 2018](#)

<sup>6</sup> [Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, Bywyd ar y strydoedd: atal a mynd i'r afael â chysgu ar y stryd yng Nghymru, Ebrill 2018, paragraff 98](#)

cyfredol a gesglir yn cefnogi datblygu polisi effeithiol na rheoli achosion unigolion yn effeithiol.<sup>7</sup>

**9.** Amcangyfrifodd data diweddar a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod 726 o bobl ddigartref wedi marw yng Nghymru a Lloegr yn 2018. O'r marwolaethau hyn, roedd dau o bob pump yn gysylltiedig â gwenwyn cyffuriau, sef cynnydd o 55 y cant yn nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â gwenwyn cyffuriau ers 2017. Galwodd Kaleidoscope hyn yn argyfwng cenedlaethol.<sup>8</sup> Oedran cymedrig marwolaethau ymhlith dynion oedd 45 oed ac i fenywod, 43 oed. Yng Nghymru, mae data y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amcangyfrif y bu farw 34 o bobl.<sup>9</sup> Mae'r rhain yn ystadegau syfrdanol, ac yn un o'r economïau cyfoethocaf yn y byd, maent yn annerbyniol.

### 3. Y cyd-destun polisi

**10.** Mae gan Lywodraeth Cymru nifer o bolisïau perthnasol, sy'n cynnwys:

- **Fframwaith Gwasanaeth i Drin Pobl sydd â Phroblemau Iechyd Meddwl a Phroblemau oherwydd Camddefnyddio Sylweddu sy'n Cyd-ddigwydd.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Fframwaith hwn ym mis Medi 2015. Y nodau yw "[g]oleuo a dylanwadu" ar y ddarpariaeth o arfer integredig a'r ddarpariaeth o wasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau camddefnyddio sylweddu. Mae'n nodi'n glir yn y cyflwyniad y bydd angen "[t]refniadau partneriaeth" gydag ystod eang o wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau tai a digartrefedd i gyflawni nodau'r fframwaith.<sup>10</sup>
- **Cynllun Gweithredu Cysgu Allan.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y cynllun gweithredu dwy flynedd hwn ym mis Chwefror 2018. Ym mis Ebrill 2019, gwnaethom ysgrifennu at y Gweinidog yn tynnu sylw at ein pryderon ynghylch cyflymder gweithredu, ac nad oedd yn ymddangos bod nifer y rhai sy'n cysgu ar y stryd yn gostwng.<sup>11</sup> Mae'r Cynllun yn

<sup>7</sup> **Grŵp Gweithredu Digartrefedd. Atal cysgu allan yng Nghymru a'i leihau yn y byrdymor.**

<sup>8</sup> Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, 13 Tachwedd 2019, Cofnod y Trafodion [76]

<sup>9</sup> **Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Marwolaethau pobl ddigartref yng Nghymru a Lloegr: 2018 (Saesneg yn unig)**

<sup>10</sup> **Llywodraeth Cymru. Fframwaith Gwasanaeth i Drin Pobl sydd â Phroblemau Iechyd Meddwl a Phroblemau oherwydd Camddefnyddio Sylweddu sy'n Cyd-ddigwydd. Medi 2015. adran 1.1**

<sup>11</sup> **Llythyr gan y Pwyllgor CLILCh at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, 23 Ebrill 2019**

cynnwys cam gweithredu ynghylch gweithio ar y cyd, sy'n nodi y dylid cael gwell mynediad at wasanaethau iechyd a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau i bobl sy'n cysgu ar y stryd. Nododd y byddai hyn yn cynnwys datblygu protocolau gweithio ar y cyd enghreifftiol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Nid yw'n eglur a wnaed y gwaith hwn, ac os felly, pa effaith y mae wedi'i chael.

- **Law yn llaw at iechyd meddwl - Cynllun cyflawni 2019-22.** Daeth yr ymgynghoriad cyhoeddus i ben ym mis Awst 2019. Roedd y cynllun drafft yn cynnwys camau gweithredu ar gyfer Llywodraeth Cymru i gefnogi'r broses o gyflwyno a gwerthuso cynlluniau peilot Tai yn Gyntaf "i alluogi cefnogaeth iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau wedi'i theilwra i unigolion reoli tenantiaethau yn annibynnol" a "p[h]rotocolau gweithio ar y cyd i gael eu datblygu ar gyfer ymgysylltu gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau gyda'r rhai sy'n cysgu allan."<sup>12</sup> Mae hefyd yn cynnwys camau sy'n ymwneud â monitro cyflawniad y Fframwaith Triniaeth Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau sy'n Cyd-ddigwydd; ac ymrwymiad i "gynnal dadansoddiad manwl gyda mewnbwn clinigwyr rheng flaen i edrych ar y rhwystrau sy'n weddill ac arfer da yn y meysydd hyn er mwyn hybu newid yn y modd y cyflenwir y gwasanaethau."<sup>13</sup>
- **Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-2022.** Cytunwyd ar y Cynllun hwn yn ddiweddar, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. Mae wedi nodi nifer o feysydd â blaenoriaeth ar gyfer gweithredu, gan gynnwys "ymateb i broblemau iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd, sy'n gyffredin wrth gamddefnyddio sylweddau" a "sichrau gwaith partneriaeth cryf gyda gwasanaethau tai a digartrefedd..."<sup>14</sup>
- **Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y strategaeth ym mis Hydref 2019; mae cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu a fydd yn cael ei lywio gan waith y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd. Disgwyllir hyn ar ôl adroddiad

---

<sup>12</sup> Llywodraeth Cymru, Dogfen Ymgynghori, Law yn llaw at Iechyd Meddwl - Cynllun Cyflawni 2019-2022, meysydd blaenoriaeth 1.3iv ac 1.3v

<sup>13</sup> Llywodraeth Cymru, Dogfen Ymgynghori, Law yn llaw at Iechyd Meddwl - Cynllun Cyflawni 2019-2022, meysydd blaenoriaeth 7.2i a 7.2ii

<sup>14</sup> Llywodraeth Cymru, Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-2022, adran 9

---

terfynol y Grŵp ym mis Mawrth 2020.<sup>15</sup> Dywed y strategaeth “na ellir atal digartrefedd drwy ddarparu tai yn unig”, ac mae'r Llywodraeth yn galw ar bob partner, gan gynnwys byrddau iechyd, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac eraill i ymrwymo i hyn. Mae hefyd yn nodi bod angen dull system gyfan, ac mai agwedd allweddol ar hyn yw “cymorth cofleidiol i unigolion...Mae hyn yn gofyn am fodolau darparu gwasanaethau amgen a berchnogir ac a ariennir ar y cyd gan wasanaethau cyhoeddus perthnasol...” Mae'n galw am dimau aml-ddisgyblaeth arbenigol sy'n defnyddio dull a gaiff ei lywio gan drawma.<sup>16</sup>

- **Gwaith y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd.** Sefydlodd Llywodraeth Cymru y Grŵp i weithio'n gyflym i argymhell y camau sydd eu hangen i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru. Ar adeg ysgrifennu, mae wedi cyhoeddi ei gyfres gyntaf o ganfyddiadau, gan ganolbwyntio ar y camau uniongyrchol y gellid eu cymryd i leihau achosion o gysgu ar y stryd yn ystod gaeaf 2019/20. Mae'n nodi bod “angen rhoi terfyn ar farwolaethau ymhlith pobl sy'n ddigartref fel mater o frys.”<sup>17</sup> Fel rhan o argymhellion 2 a 10 yn ei adroddiad cyntaf, mae'n galw am gamau gweithredu mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau, gan gynnwys defnyddio “dull lleihau niwed manylach o gefnogi pobl sy'n cysgu allan ac sydd hefyd yn defnyddio cyffuriau” a galw am archwilio “[T]riniaeth â Chymorth Heroin a darparu rhagor o Gyfleusterau Lleihau Niwed Ychwanegol.”<sup>18</sup>

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar weithredu'r camau perthnasol yn y Cynllun Gweithredu Cysgu Allan; a'r graddau y mae'r Fframwaith Gwasanaeth i Drin Pobl sydd â Phroblemau Iechyd Meddwl a Phroblemau oherwydd Camddefnyddio Sylweddau sy'n Cyd-ddigwydd wedi'i weithredu ledled Cymru.

<sup>15</sup>Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, 17 Hydref 2019, Cofnod y Trafodion [86]

<sup>16</sup> Llywodraeth Cymru. *Strategaeth ar gyfer Atal a Roi [sic] Diwedd ar Digartrefedd [sic]*. Hydref 2019

<sup>17</sup> Grŵp Gweithredu Digartrefedd. *Atal cysgu allan yng Nghymru a'i leihau yn y byrdymor*. Hydref 2019

<sup>18</sup> Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd. *Atal cysgu allan yng Nghymru a'i leihau yn y byrdymor*. Hydref 2019

## 4. Y sefyllfa bresennol

**11.** Yn seiliedig ar y dystiolaeth a glywsom ar 13 Tachwedd, ynghyd â'r dystiolaeth gynharach a ystyriwyd, mae'n amlwg ar hyn o bryd mai cyfyngedig, os o gwbl, yw'r gwasanaethau integredig sydd ar gael ar gyfer pobl sy'n cysgu ar y stryd ac sydd ag anhwylderau sy'n cyd-ddigwydd. Er nad problem i bobl sy'n cysgu ar y stryd yn unig yw'r diffyg gwasanaethau oherwydd eu gwendidau ychwanegol, a'n gwaith blaenorol yn y maes hwn, rydym wedi canolbwyntio ein sylw ar y grŵp hwn.

**12.** Efallai y bydd rhai pocedi bach o wasanaethau integredig fel gwaith y Gydweithfa Gofal Cymunedol yn Wrecsam, nifer o brosiectau Tai yn Cyntaf a'r enghraifft a roddwyd inni gan Gwent, ond ymddengys mai eithriad yw'r rhain ac nid y norm. Mae angen ailadrodd y pecynnau bach hyn o arfer da mewn mannau eraill yng Nghymru.

**13.** Un o'r rhwystrau i rannu arfer da yw'r broses gomisiynu:

“So, if you've got a sector driven by competition, it means nobody can be vulnerable, so nobody can say, 'These are the lessons we've learned. Look at what a cock-up we made over here, we need to change it.' Nobody can be vulnerable, everybody has to be brilliant all of the time to keep their contracts and keep doing their work. Well, if you can't have a system that's vulnerable, you don't have learning cultures that shift and are agile and that can flex, unless you completely step outside of the system and are prepared to do something else.”<sup>19</sup>

**14.** Nodwn y sylwadau hyn. Mae angen rhaglen glir o ddysgu a rhannu yn sgil arfer da.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi arfer gorau i wella rhannu ar draws y sector, ac yn sicrhau nad yw'r broses gomisiynu yn rhwystr i hyn.

**15.** Ar hyn o bryd, mae brwydr i ddarparu lefel sylfaenol o gefnogaeth. Clywsom fod nifer o resymau yn gyfrifol am hyn, fel comisiynu a diwylliant ac edrychwn yn benodol ar y materion hyn isod. Yn benodol, nid oes digon o arian yn y system,

---

<sup>19</sup> Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, 13 Tachwedd 2019, Cofnod y Trafodion [103]

sy'n arwain at ras i'r gwaelod am wasanaethau.<sup>20</sup> Cawsom wybod bod pobl ar hyn o bryd yn gorfod gweithio o amgylch system sydd wedi torri.<sup>21</sup>

**16.** Clywsom hefyd am bwysigrwydd sicrhau bod gwasanaethau'n cynnig rhywbeth gwell na'r strydoedd:

"The real thing that's stopping people coming in is that the offer that we have in services is less than what the streets offer. So, if you're in the throes of addiction, you've got all these complex mental health issues....you can turn that pain off with spice or heroin quite easily. We can't offer people that. You can be nobody in a flat, or you can be somebody on the streets. There are cultural implications for people who've been out there for a long time."<sup>22</sup>

**17.** Cawsom wybod bod angen canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau, gyda dull sy'n gyfarwydd â thrawma ac ymagwedd lle nad oes dewis anghywir. Mae hyn yn arbennig o bwysig i'r grŵp hwn o bobl, nad ydynt efallai'n estyn allan at weithiwr iechyd meddwl neu weithiwr camddefnyddio sylweddau arbenigol yn y lle cyntaf, ac felly y gall fod angen cymorth arnynt i lywio'r system.

**18.** Roedd cynrychiolwyr o Huggard a Kaleidoscope yn glir yn eu hawydd i weld camau mwy radical eraill yn cael eu cymryd, yn benodol o ran darparu ystafelloedd chwistrellu.<sup>23</sup> Fodd bynnag, byddai hyn yn gofyn am newid deddfwriaethol sydd y tu allan i gymhwysedd y Cynulliad. Yn sgil y ffaith nad yw hwn yn adnodd sydd ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd, roeddent yn galw am fynediad cynyddol at driniaeth amnewid heroin. Roedd The Wallich hefyd eisiau cymryd camau i alluogi pobl sy'n cael cymorth i allu defnyddio cyffuriau yn eu llety heb roi'r landlord mewn perygl o gael ei erlyn.<sup>24</sup>

---

<sup>20</sup> Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, 13 Tachwedd 2019, Cofnod y Trafodion [27]

<sup>21</sup> Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, 13 Tachwedd 2019, Cofnod y Trafodion [167]

<sup>22</sup> Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, 13 Tachwedd 2019, Cofnod y Trafodion [30]

<sup>23</sup> Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, 13 Tachwedd 2019, Cofnod y Trafodion [37]

<sup>24</sup> Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, 13 Tachwedd 2019, Cofnod y Trafodion [212-214]

---



**19.** Rydym yn derbyn bod rhai o'r materion hyn yn arwain at lawer o safbwyntiau gwahanol, yn arbennig sefydlu ystafelloedd chwistrellu. Fodd bynnag, credwn fod nifer y marwolaethau sy'n ymwneud â chyffuriau yn rhy uchel a bod angen gwneud popeth sy'n bosibl i leihau'r risgiau a'r niferoedd sy'n marw.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud mwy i gefnogi mentrau lleihau niwed. Dylai hyn gynnwys:

- egluro a yw'r setliad datganoli yn galluogi sefydlu ystafelloedd chwistrellu diogel yng Nghymru; ac os nad yw, a fydd yn ceisio pwerau o'r fath; byddem yn disgwyl i unrhyw benderfyniad a wneir gael ei lywio gan y sail dystiolaeth sy'n dangos effeithiolrwydd yr ymyriad hwn; a
- gweithio gyda Llywodraeth y DU a chyrff heb eu datganoli fel yr heddlu i leihau'r risg y caiff landlordiaid eu herlyn pan fydd preswylwyr neu denantiaid yn defnyddio cyffuriau ar eu heiddo, fel rhan o raglan lleihau niwed.

## 5. Diwylliant ac arweinyddiaeth

**20.** Siomedig iawn oedd clywed gan ein panel fod materion diwylliannol o fewn sefydliadau a diffyg arweinyddiaeth yn rhwystr sylweddol i ddarparu gwasanaethau integredig. Dro ar ôl tro cawsom wybod am seilos; o agwedd 'ni a nhw'.<sup>25</sup> Cawsom wybod nad yw arloesedd yn cael ei groesawu, a bod camu y tu allan i'r system yn eithaf pryderus. Mae'n destun pryder clywed bod pobl fel Dr Karen Sankey wedi cael ei chau allan gan y bwrdd iechyd, gan awdurdod lleol a chan sefydliadau eraill<sup>26</sup> yn syml am ddarparu'r math o wasanaethau integredig y mae angen mawr amdanynt ledled Cymru.

**21.** Dywedodd Iechyd Cyhoeddus Cymru wrthym fod y rhwystrau hyn hefyd yn bodoli yn y gwasanaeth iechyd:

“We are very aware that, certainly, there's a different culture within substance misuse and within formal mental health services, and has been for many decades. And there is a paucity, a recognised paucity, of

---

<sup>25</sup> Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, 13 Tachwedd 2019, Cofnod y Trafodion [11] a [105]

<sup>26</sup> Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, 13 Tachwedd 2019, Cofnod y Trafodion [113]



joined-up leadership at the very senior level, at consultant psychiatry level and consultant psychiatrists in addictions.”<sup>27</sup>

**22.** Er hynny, mae'r model Tai yn Gyntaf wedi dangos y gellir goresgyn y seilos hyn. Clywsom fod union natur y model sy'n dwyn ynghyd ystod eang o wasanaethau wedi goresgyn llawer o'r rhwystrau hyn ac wedi arwain at weithio a darparu gwasanaethau mewn ffordd fwy integredig.<sup>28</sup> Er hynny, nodwn hefyd nad yw Tai yn Gyntaf yn ateb syml.<sup>29</sup>

**23.** Gan fod cymaint o broffesiynau a sefydliadau'n ymwneud â darparu'r gefnogaeth angenrheidiol mae'n broblem pawb ond yn gyfrifoldeb neb, ac felly nid oes yr un corff yn cymryd perchnogaeth.<sup>30</sup> Roedd galwad amlwg am arweinyddiaeth, gan ddechrau gyda Llywodraeth Cymru, ond hefyd ar lefel awdurdodau lleol a byrddau iechyd, a gwasanaethau eraill sy'n gweithio yn y maes hwn. Nodwn ymrwymiad clir Llywodraeth Cymru yn y Strategaeth ar gyfer Atal a Dod â Digartrefedd i Ben na ellir atal digartrefedd drwy dai yn unig, a bod rôl i'r holl wasanaethau cyhoeddus.<sup>31</sup> Byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru am sut y bydd yn cyflawni'r datganiad hwn.

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd rôl arweiniol wrth weithio gyda sefydliadau ar draws sectorau i fwrw ymlaen â'r newid diwylliannol angenrheidiol i ddod â sefydliadau ynghyd i ddarparu gwasanaethau cwbl integredig. Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddarar'r Pwyllgor ar y camau y mae wedi'u cymryd a'r amserlenni ar gyfer camau yn y dyfodol i gyflawni'r argymhelliad hwn ar ôl chwech, naw a deuddeg mis.

**24.** Un o'r ffyrdd o fynd i'r afael â'r materion diwylliannol hyn yw hyfforddiant o ansawdd da i bawb sy'n gweithio gyda phobl sy'n cysgu ar y stryd ac sydd ag anhwylderau sy'n cyd-ddigwydd. Cawsom wybod bod safonau galwedigaethol cenedlaethol cyffuriau ac alcohol (DANOS) wedi bodoli yn y gorffennol a oedd yn nodi fel rhan o'r broses gomisiynu, yr hyfforddiant a oedd yn angenrheidiol ar gyfer

---

<sup>27</sup> Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, 13 Tachwedd 2019, Cofnod y Trafodion [13]

<sup>28</sup> Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, 13 Tachwedd 2019, Cofnod y Trafodion [204-205]

<sup>29</sup> Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, 13 Tachwedd 2019, Cofnod y Trafodion [207]

<sup>30</sup> Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, 13 Tachwedd 2019, Cofnod y Trafodion [64]

<sup>31</sup> [Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd, Atal cysgu allan yng Nghymru a'i leihau yn y byrdymor, Hydref 2019.](#)

y gweithlu.<sup>32</sup> Byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru ynghylch pam nad yw'r safonau hyn ar waith mwyach, ac a oes lle i'w hailgyflwyno i fynd i'r afael â rhai o'r materion a amlygir yn yr adroddiad hwn.

**25.** Ar hyn o bryd, nid oes digon o staff â'r hyfforddiant a'r arbenigedd cywir i ymdrin â chymhlethdodau rhywun sydd ag anhwylderau sy'n cyd-ddigwydd. Mae hyn ar bob lefel, gan gynnwys y rhai a allai arbenigo yn y broses o gefnogi pobl sydd ag anhwylderau sy'n cyd-ddigwydd, yn ogystal â'r rhai sy'n darparu cefnogaeth fwy cyffredinol. Mae angen mynd i'r afael â hyn gan sicrhau bod digon o arbenigwyr ym maes anhwylderau sy'n cyd-ddigwydd ond hefyd bod gan bawb sy'n gweithio gyda phobl sy'n cysgu ar y stryd lefel briodol o hyfforddiant i gefnogi neu gyfeirio pobl. Byddai hyn yn cwmpasu'r rhai sy'n darparu gwasanaethau allgymorth yn ogystal ag eraill a allai gysylltu gyntaf â phobl sy'n cysgu ar y stryd, sy'n arbennig o bwysig, fel y nodir gennym ym mharagraff 17.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi'r hyfforddiant sydd ar gael i bawb sy'n cefnogi pobl sy'n cysgu ar y stryd; yn nodi unrhyw fylchau penodol ac yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu hyfforddiant i sicrhau bod gan bawb sy'n gweithio gyda phobl sy'n cysgu ar y stryd ddigon o ddealltwriaeth a sgiliau i gefnogi'r rheini sydd ag anhwylderau sy'n cyd-ddigwydd. Fel rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru ystyried effeithiolrwydd hyfforddiant seiciatreg arbenigol.

## 6. Comisiynu ac ariannu

**26.** Roedd rhanddeiliaid yn glir iawn y gellid goresgyn llawer o'r rhwystrau cyflenwi hyn drwy broses gomisiynu ddiwygiedig ac wedi'i hadnewyddu.<sup>33</sup> Mae enghraifft Tai yn Gyntaf yn dangos bod y mathau o wasanaethau a sut y maent yn cael eu darparu yn cael eu pennu gan yr hyn sy'n cael ei gomisiynu. Mae gweithio ar y cyd yn dilyn comisiynu ar y cyd:

“...we hadn't particularly worked with Wallich until this commissioning of housing first. And because that's an integration of housing, mental health and substance misuse, suddenly... suddenly, I'm talking to Lindsay about particular opportunities and work, which we can then co-deliver with other partners. ... people will follow the funding, and if

---

<sup>32</sup> Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, 13 Tachwedd 2019, Cofnod y Trafodion [152]

<sup>33</sup> Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, 13 Tachwedd 2019, Cofnod y Trafodion [48]

they can see that that's where the money is going, then they will work together and the silos thing begins to break down.”<sup>34</sup>

**27.** Fel rhan o'r broses gomisiynu, mae nodi'r fframwaith rheoli perfformiad cywir hefyd yn hanfodol. Cawsom wybod y canlynol:

“You can know that you are in a really not very good service...You can know that, but actually your KPIs can be fantastic.”<sup>35</sup>

Yn ogystal â'r fframwaith rheoli perfformiad sy'n mesur y pethau iawn, cawsom wybod y gallai defnyddio canlyniadau a rennir helpu i ysgogi integreiddio.<sup>36</sup>

**28.** Fel y nodwyd yn gynharach, ar hyn o bryd nid oes digon o arian yn y system i gyflawni'r newid sylweddol sydd ei angen. Clywsom y gall y pwysau ariannol ar sefydliadau unigol gyfyngu ar eu gallu i feddwl yn arloesol. Clywsom hefyd am y pwysau y gall cyllid byrdymor ei roi ar sefydliadau i sicrhau newid.

**29.** Dywedodd Dr Keith Reid wrthym nad y sefydliadau, boed y sector iechyd neu awdurdod lleol, oedd bob amser yn darparu'r cyllid a welodd enillion uniongyrchol ar y buddsoddiad hwnnw, hyd yn oed pe bai budd i gymdeithas neu rannau eraill o'r sector cyhoeddus. Dywedodd:

“We need to get beyond that, and I think the policy environment in Wales is probably ideal to get beyond that, but the culture in the various sectors hasn't yet got beyond that.”<sup>37</sup>

**30.** Un ffordd o fynd i'r afael â hyn fyddai defnyddio cyllidebau cyfun.

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru naill ai'n cynnal neu'n comisiynu adolygiad brys i arferion a chanllawiau comisiynu i ymchwilio i'r pryderon a fynegwyd, gan edrych yn benodol ar p'un a yw dulliau rheoli perfformiad gwell, canlyniadau a rennir; cyllidebau cyfun; comisiynu mwy hirdymor a mynd i'r afael â gwrthdaro posibl o ran buddiannau yn helpu i gefnogi gwasanaethau integredig gwell ar gyfer pobl sy'n cysgu ar y stryd ac

---

<sup>34</sup> Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, 13 Tachwedd 2019, Cofnod y Trafodion [193]

<sup>35</sup> Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, 13 Tachwedd 2019, Cofnod y Trafodion [104]

<sup>36</sup> Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, 13 Tachwedd 2019, Cofnod y Trafodion [195]

<sup>37</sup> Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, 13 Tachwedd 2019, Cofnod y Trafodion [184]

sydd ag anhwylderau sy'n cyd-ddigwydd. Dylai hefyd ystyried effaith rhwystrau i gyfuno cyllid statudol ac anstatudol. Er y dylid canolbwyntio ar y gwasanaethau hyn, gellid cymhwyso'r canfyddiadau yn ehangach ar draws y sector.

## 7. Sut y dylai gwasanaethau edrych

**31.** Roedd brwdfrydedd, angerdd a gweledigaeth y tystion ynghylch sut y dylai gwasanaethau integredig edrych, a'r hyn y dylent ei ddarparu wedi creu argraff arnom. Credwn fod angen harneisio'r egni hwn wrth wella'r modd y darperir ac y dylunir gwasanaethau.

**32.** Rydym yn cydnabod, er bod llawer o hyn yn hawdd ei nodi, y gall cyflawni fod yn llawer mwy anodd ar draws sector tameidiog gyda'r holl bartneriaid yn wynebu pwysau ariannol sylweddol. Ond fel yr amlygodd y tystion, gellir ei wneud, ac mae'n cael ei wneud gyda Tai yn Gyntaf a'r Gydweithfa Gofal Cymunedol yn Wrecsam. Credwn, gyda'r agwedd a'r arweinyddiaeth gywir, a rhywfaint o fuddsoddiad ariannol, y gellir gwneud gwelliannau sylweddol. Gallai'r effaith y gallai hyn ei chael ar unigolion sy'n byw y bywydau mwyaf cymhleth ac anhrefnus newid eu bywydau. Yn ogystal â'r effaith y byddai hyn yn ei chael ar unigolion, byddai'n cydymffurfio â'r agenda ataliol fel y nodir yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**33.** Mae llawer o'r hyn yr ydym wedi'i glywed yn cyd-fynd â'r argymhellion a amlinellwyd gan y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd:

- Defnyddio dull cynhadledd achos, fel bod yr holl wasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd i ddarparu pecyn gofal. Dangoswyd eisoes bod hyn yn gweithio yn Tai yn Gyntaf Ynys Môn.
- Dim agwedd 'dewis anghywir'. Sicrhau bod pobl yn cael help i lywio'r system yn effeithiol ni waeth pa wasanaeth neu broffesiwn y maent yn ymgysylltu ag ef yn y lle cyntaf.
- Cefnogi a datblygu gwasanaethau allgymorth pendant effeithiol. Ni ddylai gwasanaethau allgymorth orfod ymdrin â rhywun sy'n cysgu ar y stryd mewn 2.5 munud.<sup>38</sup> Mae'n cymryd amser i ddatblygu

---

<sup>38</sup> Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, 13 Tachwedd 2019, Cofnod y Trafodion [27]

ymddiriedaeth a pherthnasoedd fel bod pobl yn derbyn cefnogaeth ganddynt.

- Ar gyfer y grŵp penodol hwn dylai fod mynediad trothwy isel at wasanaethau. Yn benodol, sicrhau nad yw colli apwyntiadau neu faterion gweinyddol eraill yn arwain at gael eu tynnu o driniaeth neu gefnogaeth. Dylai'r trothwy isel hwn gael ei ategu gan asesiad cyflym a mynediad at gefnogaeth a/neu driniaeth. Roedd yn amlwg o'r dystiolaeth a glywsom fod epiffani yn aml yn dod i rywun sy'n cysgu ar y stryd ar adeg lle na ellir cael gafael ar wasanaethau, er enghraifft yng nghanol y nos. Gall y foment hon fod am eiliad ac os na weithredir yn gyflym gellid colli'r cyfle i ofyn am gymorth.
- Cawsom wybod, pan roddir ffocws ar grwpiau penodol o bobl, fod hyn yn arwain at ostyngiadau yn y grwpiau hyn yn cysgu ar y stryd, er enghraifft gyda chyn-filwyr.<sup>39</sup> Yn sgil hyn, mae angen rhoi ffocws tebyg ar garcharorion ar ôl eu rhyddhau. Maent yn wynebu rhwystrau ychwanegol wrth geisio ymdrin ag anhwylderau sy'n cyd-ddigwydd. Yn benodol mae angen goresgyn yr anawsterau yn sgil rhyddhau carcharorion ar ddydd Gwener, pan nad oes gwasanaethau ar gael. Ers cael gwared ar yr angen â blaenoriaeth ar gyfer carcharorion, mae llwybr wedi'i sefydlu i fynd i'r afael â rhai o'r heriau penodol sy'n wynebu'r rhai sy'n gadael y system garchardai. Fodd bynnag, rydym wedi clywed nad yw'r llwybr hwn yn gweithio'n effeithiol ar hyn o bryd.
- Yn ystod ein hymgysylltiad â phobl â phrofiad byw, clywsom fod nifer o bobl sy'n cysgu ar y stryd hefyd yn wynebu rhwystrau ychwanegol o ganlyniad i gyflyrau niwro-amrywiol megis awtistiaeth neu ADHD. Os ydynt hefyd yn delio ag anhwylderau sy'n cyd-ddigwydd, mae'r mynydd sy'n rhaid ei ddringo i gael y gefnogaeth gywir yn dod bron yn amhosibl i'w goresgyn. Nodwn nad yw'r Fframwaith Gwasanaeth y tynnir sylw ato yn gynharach yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio'n benodol at faterion niwro-amrywiol. Rydym yn ymwybodol o'r gwaith sydd wedi'i wneud ar lefel Senedd y DU gan y Grŵp Hollbleidiol ar ADHD a hoffem gyfeirio Llywodraeth Cymru ato, yn benodol yr argymhellion sy'n ymwneud â chyfrifoldebau datganoledig.

---

<sup>39</sup> Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, 13 Tachwedd 2019, Cofnod y Trafodion [260-265]

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o waith i ddeall graddfa a maint y rhwystrau y mae pobl sy'n cysgu ar y stryd sydd ag anhwylderau sy'n cyd-ddigwydd a chyflyrau niwro-amrywiol yn eu hwynebu o ran ceisio cael cymorth priodol i sicrhau llety parhaol a chymorth ar gyfer eu hanawsterau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl.

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn mynegi ei barn ar yr argymhellion yn adroddiad y Grŵp Hollbleidiol ar ADHD sy'n ymwneud â chyfrifoldebau datganoledig yn adran 1a ar ymyrraeth gynnar a gwaith ataliol – sgrinio ar ôl gwahardd o'r ysgol am yr ail dro (dros dro neu fel arall); adran 2 ar gadw at ganllawiau NICE ar gyfer ADHD yn y system carchardai; ac adran 3 ar sgrinio ar gyfer ADHD.

- Mae angen i wasanaethau fod yn ymatebol a chanolbwyntio ar anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi. Dylent gael eu cynllunio i ddiwallu eu hanghenion, yn hytrach na gweddu'r gefnogaeth i ddyluniad y gwasanaeth.
- I'r rhai sydd angen y gefnogaeth a gynigir gan Tai yn Gyntaf, mae angen inni sicrhau bod digon o lety addas ar gael yn y lleoliad cywir. Mae cysyniad Tai yn Gyntaf yn seiliedig ar sicrhau bod y llety yn gartref hirdymor i'r unigolyn, ac nid ar symud yr unigolyn ymlaen unwaith y bydd ei anghenion cymorth yn lleihau. Mae hyn yn golygu sicrhau bod digon o lety addas y gellir eu defnyddio ar gyfer y model Tai yn Gyntaf.
- Mae angen cynyddu capasiti cyfleusterau dadwenwyno preswyl a chymunedol. Clywsom mai cyfleusterau dadwenwyno cymunedol yw'r ateb mwyaf priodol i lawer, ond i rai cyfleusterau dadwenwyno preswyl yw'r ateb, ac nid oes digon o gapasiti cyfredol yng Nghymru i ddiwallu'r anghenion am gyfleusterau dadwenwyno Haen 4.

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod digon o gapasiti a chyllid ar gael ar gyfer cyfleusterau dadwenwyno preswyl a chymunedol yng Nghymru er mwyn sicrhau bod pawb sydd angen y math hwn o gyfleuster yn gallu cael gafael arno mewn modd amserol.

## 8. Materion eraill

**34.** Hoffem wneud sylw ar ddau fater arall. Un oedd bod tystion wedi amlygu'r ffaith bod y mater hwn wedi'i drafod yn rheolaidd, gyda'r atebion yn hysbys iawn. Yr hyn sydd ei angen yw gweithredu'r newidiadau angenrheidiol. Dywedodd un tyst:

“I really hope we’re not sat here again in three years having the same conversation, because I suspect we will be.”<sup>40</sup>

**35.** Credwn, gyda gwaith y Grŵp Gweithredu, fod Llywodraeth Cymru yn ceisio mynd i'r afael â rhai o'r anawsterau cymhleth a sefydlog o ran cysgu ar y stryd a digartrefedd. Felly mae'n amser priodol i fynd i'r afael â'r rhwystrau ychwanegol sy'n wynebu'r grŵp penodol hwn o bobl sy'n cysgu ar y stryd.

**36.** Roedd hefyd yn destun pryder clywed pobl yn siarad am effaith bod yn agored ac yn onest.<sup>41</sup> Nid dyma'r tro cyntaf fel rhan o'r gwaith hwn y soniwyd wrthym yn anffurfiol y gallai sefydliadau, drwy siarad allan, fod yn peryglu cyllid neu gefnogaeth. Mae hyn yn annerbyniol, a rhaid i Lywodraeth Cymru ei gwneud yn glir y dylai sefydliadau fod mewn sefyllfa i dynnu sylw at bryderon am wasanaethau neu gefnogaeth, heb i hyn beryglu cyllid na chefnogaeth heddiw ac yn y dyfodol.

---

<sup>40</sup> Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, 13 Tachwedd 2019, Cofnod y Trafodion [270]

<sup>41</sup> Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, 13 Tachwedd 2019, Cofnod y Trafodion [132]